

OFFERYN CADARNHAU

Mae Corff Adnoddau Naturiol Cymru ("Cyfoeth Naturiol Cymru") wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru gadarnhau Is-ddeddfau Gwialen a Lein (Eogiaid a Brithyllod y Môr) Cymru 2017, a wnaed gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar 21 Awst 2017.

Mae Gweinidogion Cymru, â chydsyniad Cyfoeth Naturiol Cymru, wedi penderfynu cadarnhau Is-ddeddfau Gwialen a Lein (Eogiaid a Brithyllod y Môr) Cymru 2017, yn ddarostyngedig i'r amrywiadau a ddisgrifir yn yr Offeryn hwn.

Wrth arfer y pwerau a roddir gan baragraff 2 o Atodlen 26 i Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 ac a freinir bellach ynddynt hwy, mae Gweinidogion Cymru'n cadarnhau Is-ddeddfau Gwialen a Lein (Eogiaid a Brithyllod y Môr) Cymru 2017, yn ddarostyngedig i'r amrywiadau canlynol—

1 Is-ddeddf 2 – Cymhwysiad

Yn lle'r paragraff olaf rhodder—

“Bydd yr Is-ddeddfau hyn yn dod i rym ar 1 Ionawr 2020 ac yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2029, ac eithrio Is-ddeddfau 4 a 5 a fydd yn peidio â chael effaith mewn cysylltiad ag Afon Wysg yn unig ar 31 Rhagfyr 2021.”

2 Is-ddeddf 3 – Dehongliad

Mae Is-ddeddf 3 wedi'i disodli gan—

“Is-ddeddf 3 – Dehongliad

Yn yr Is-ddeddfau hyn, oni bai bod y cyd-destun yn gofyn fel arall—

(a) Ystyr "abwyd" yw mwydyn, corgimwch a berdysen, boed yn naturiol

neu'n artiffisial.

(b) Ystyr "Cyfoeth Naturiol Cymru" yw Corff Adnoddau Naturiol Cymru.

(c) Ystyr "eogiaid" yw eogiaid o'r rhywogaeth *Salmo salar* ac mae'n cynnwys rhan o eog.

(ch) Ystyr "brithyllod y môr" yw unrhyw bysgodyn o deulu'r eog a adwaenir yn gyffredinol fel brithyll y môr neu sewin (brithyll mudol) ac mae hefyd yn cynnwys rhan o frithyll y môr.

(d) Ystyr "Cymru" yw Cymru gyfan, ynghyd â'r rhannau hynny o'r môr tiriogaethol sy'n gyfagos â Chymru hyd at chwe milltir o'r gwaelodlinau y mae lled y môr hwnnw yn cael ei fesur ohonynt.

(dd) Ystyr "Is-ddeddfau Gwialen a Lein 1995" yw'r Is-ddeddfau sy'n rheoleiddio pysgota â gwialen a lein ac sy'n gwneud darpariaethau cyffredinol penodol mewn perthynas â materion pysgodfeydd a wneir gan Ranbarth Cymru'r Awdurdod Afonydd Cenedlaethol.

(e) Heblaw pan fydd yn ofynnol gan y cyd-destun, bydd yr holl eiriau a'r ymadroddion a ddefnyddir yn yr Is-ddeddfau hyn yn cael eu hystyr wedi'u haseinio iddynt gan Ddeddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975, Deddf Adnoddau Dŵr 1991 neu unrhyw addasiad neu ailddeddfiad statudol sy'n rhan ohonynt."

3 Is-ddeddf 4 - Dal a rhyddhau gyda gwialen a lein (eog)

Mae'r gair "catch" yn nhestun Saesneg teitl Is-ddeddf 4 wedi'i ddisodli gan "Catch".

4 Is-ddeddf 5 – Dal a rhyddhau gyda gwialen a lein (brithyll y môr)

i) Mae'r gair "catch" yn nhestun Saesneg teitl Is-ddeddf 5 wedi'i ddisodli gan "Catch".

ii) Yn Is-ddeddf 5(xix), mae'r gair "Arto" wedi'i ddisodli gan y gair "Artro".

5 Is-ddeddf 6 – Cyfyngiad ar faint (brithyll y môr)

Mae Is-ddeddf 6 wedi'i disodli gan—

"Is-ddeddf 6 – Cyfyngiad ar faint (brithyll y môr)

(1) Mae Is-ddeddf 7 o Is-ddeddfau Gwialen a Lein 1995 (Cyfyngiadau ar Faint – Brithyll (ac eithrio brithyllod seithliw)) wedi'i hailrifo'n 7(1).

(2) Bydd y paragraff canlynol yn cael ei fewnosod ar ôl Is-ddeddf 7(1) o Is-ddeddfau Gwialen a Lein 1995 (Cyfyngiadau ar Faint – Brithyll (ac eithrio brithyllod seithliw))—

“(2) Subject to the provisions contained with existing fisheries byelaws affecting the River Dee; River Severn; and River Wye as amended, any person who removes any live or dead sea trout of a size larger than 60 centimetres with rod and line from any river or tributary in Wales shall be guilty of an offence. The size shall be ascertained by measuring from the tip of the snout to the end of the tail.

This byelaw shall not apply to any person who lawfully takes any live or dead sea trout of a size larger than 60 centimetres and returns it immediately to the water with the least possible injury.”

6 Is-ddeddf 7 – Dim pysgota ag abwyd

i) Mae'r gair “no” yn nhestun Saesneg teitl Is-ddeddf 7 wedi'i ddisodli gan “No”.

ii) Mae Is-ddeddf 7(1) wedi'i hailrifo'n 7(2); mae Is-ddeddf 7(2) wedi'i hailrifo'n 7(3); mae Is-ddeddf 7(3) wedi'i hailrifo'n 7(4); mae Is-ddeddf 7(4) wedi'i hailrifo'n 7(5); mae Is-ddeddf 7(5) wedi'i hailrifo'n 7(6); ac mae Is-ddeddf 7(6) wedi'i hailrifo'n 7(7).

iii) Mae'r Is-ddeddf 7(1) newydd ganlynol wedi'i mewnosod—

“(1) Bydd y paragraffau canlynol yn cael eu mewnosod ar ôl paragraff (a) o Is-ddeddf 2 Is-ddeddfau Gwialen a Lein 1995 (Dehongliad) —

“(aa) “artificial fly” means a fishing fly that is primarily constructed from natural or synthetic fur and feather materials and which is designed to attract fish and which incorporates a fishing hook.

(ab) “artificial lure” means any device, including but not limited to spoons, spinners, wobblers and plugs, or artificial imitation fish baits made of any material which is designed to attract fish and which incorporates a fishing hook.

(ac) “salmon” means salmon of the species *Salmo salar* and includes part of a salmon.””

iv) Mae Is-ddeddf 7(2) wedi'i disodli gan—

“(2) Mae paragraff (a)(1) a (2) o Is-ddeddf 9 Is-ddeddfau Gwialen a Lein 1995 (Defnyddio Maglau ac Abwyd gyda Gwialen a Lein) (Eogiaid a Brithyllod) wedi'i ddisodli gan—

“(a) Salmon and Sea Trout

(1) Subject to the provisions contained with existing fisheries byelaws affecting the River Dee; River Severn; and River Wye as amended, no person shall fish for, take or attempt to fish for or take any salmon with rod and line by means of any bait from any river or tributary in Wales.

PROVIDED that this restriction shall not apply to a person fishing by means of rod and line with a natural or artificial prawn or shrimp as bait from the 1st day of September up to and including the following dates—

- i) in the Gwynedd and West Wales Fisheries Districts and that part of the Gower Fisheries District which comprises the Rivers Tawe, Loughor, Gwendraeth Fach and Gwendraeth Fawr and their tributaries, the 7th day of October;
- ii) in the Usk Fisheries District, the 15th day of September;
- iii) in the West Wales Fisheries District, the 7th day of October;

- iv) in the rivers of the Isle of Anglesey and their tributaries, the 7th day of November;
- v) in the rivers of the Llyn Peninsula and their tributaries, the 16th day of October; and
- (vi) elsewhere (excluding the Wye Fisheries District), the 30th day of September.

(2) No person shall before the 1st day of May fish for, take or attempt to fish for or take any sea trout with rod and line by means of any bait from any of the following rivers and their tributaries without the previous written authority of Natural Resources Wales—

- i) River Tywi
- ii) River Taf
- iii) Western Cleddau
- iv) River Teifi
- v) River Dyfi
- vi) River Rhymney
- vii) Eastern Cleddau
- viii) River Usk
- ix) River Tawe
- x) River Loughor
- xi) River Gwendraeth
- xii) River Aeron
- xiii) River Ystwyth
- xiv) River Dysynni
- xv) River Taff
- xvi) River Ely
- xvii) River Afan
- xviii) River Neath
- xix) River Artro
- xx) River Glaslyn
- xxi) River Dwyryd
- xxii) River Seiont

xxiii) River Nevern.””

- v) Mae Is-ddeddf 7(3) wedi'i disodli gan—
“(3) Mae paragraff (a)(3) o Is-ddeddf 9 wedi'i ddirymu.”
- vi) Mae Is-ddeddf 7(4) wedi'i disodli gan—
“(4) Mae paragraff (a)(4) o Is-ddeddf 9 wedi'i ddisodli gan—
“(4) No person shall fish for, take or attempt to fish for or take any salmon or migratory trout with rod and line by the use of a float in conjunction with any artificial fly or lure in the Wye Fisheries District.””
- vii) Yn y testun Cymraeg, yn Is-ddeddf 7(5), mae'r gair “paragraffau” wedi'i ddisodli gan “paragraff”.
- viii) Yn y testun Cymraeg, mae Is-ddeddf 7(6) wedi'i ddisodli gan—
“(6) Ar ôl paragraff (a)(5) o Is-ddeddf 9, bydd y canlynol yn cael ei fewnosod—
“(5A) No person shall fish for, take or attempt to fish for or take any salmon or migratory trout by means of any lure other than an artificial fly weighing less than 5 grams and then only without any weight being attached directly or indirectly to the fishing line in the Usk Fisheries District between the 2nd day of March and the 1st day of June following.””
- ix) Mae Is-ddeddf 7(7) wedi'i disodli gan—
“(7) Mae paragraff (a)(7) o Is-ddeddf 9 wedi'i ddisodli gan—
“(7) No person shall fish for, take or attempt to fish for any non-migratory trout with rod and line by any means other than natural earthworm or artificial fly in the Usk Fisheries District at any time.””

7 Is-ddeddf 8 – Bachau

Mae Is-ddeddf 8 wedi'i disodli gan—

“Is-ddeddf 8 – Bachau

(1) Mae Is-ddeddf 10(a) o Is-ddeddfau Gwialen a Lein 1995 wedi'i ddisodli gan—

“(a) Barbless or de-barbed hooks

(1) Subject to the provisions contained with existing fisheries byelaws affecting the River Dee; River Severn; and River Wye as amended no person shall fish for, take or attempt to fish for or take any salmon or sea trout with rod and line from any river or tributary in Wales except with barbless or de-barbed hooks.

(2) Subject to the provisions contained within existing fisheries byelaws affecting the River Dee; River Severn; and River Wye as amended no person shall use more than one hook with a bait; artificial lure; or artificial fly unless—

- i) On artificial lures, the use is restricted to one single hook only to a maximum gape of 13 millimetres measured from the shank to the point PROVIDED that this restriction to one single hook shall not apply to wobblers, plugs or artificial imitation fish baits which are allowed up to a maximum of 3 single hooks;
- ii) On artificial flies with a gape greater than 7mm measured from the shank to the point, the use is restricted to one single or one double hook;
- iii) On artificial flies with a gape not greater than 7mm measured from the shank to the point, the use is restricted to a maximum of 2 hooks with a maximum of 4 points,

and in no case shall any bait; artificial lure; or artificial fly be furnished with more than 3 hooks and no weight or sinker shall be attached below the bait; artificial lure; or artificial fly.

(aa) Single hooks

Subject to the provisions contained with existing fisheries byelaws affecting the River Dee; River Severn; and River Wye as amended no person shall fish for, take or attempt to fish for or take any sea trout with rod and line from any river or tributary in Wales by means of any bait furnished other than by a single worm baited on a single barbless or de-barbed hook with the gape of any such hook measured from the shank to the point restricted to 8 millimetres.”

(2) Ar ôl paragraff (b) o Is-ddeddf 10 mewnosodir—

“(c) Treble hooks

No person shall fish for, take or attempt to fish for or take any salmon or sea trout with rod and line from any river in Wales excluding the River Dee; River Severn; and River Wye using—

- i) an artificial fishing lure (including an artificial fly) furnished with one or more treble hooks EXCEPT an artificial fly with a gape of not greater than 7mm measured from the shank to the point;
- ii) a bait furnished with a treble hook with a gap of greater than 7mm measured from the shank to the point, or
- iii) a bait furnished with more than one treble hook.””

8 Is-ddeddf 10 – Pysgota gerllaw rhwystrau

Mewnosodir yr Is-ddeddf ganlynol ar ôl Is-ddeddf 9—

“Is-ddeddf 10 – Pysgota gerllaw rhwystrau

Mae Is-ddeddf 13(a)(2)(iii)(b) o Is-ddeddfau Gwialen a Lein 1995 (Pysgota gerllaw Rhwystrau yn Ardal Pysgodfeydd Gorllewin Cymru) wedi'i dirymu.”

Lesley Griffiths

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

A handwritten signature in black ink that reads "Lesley Griffiths". The script is cursive and fluid, with the first name "Lesley" and the last name "Griffiths" written in a single continuous line.

12 Rhagfyr 2019